**IONAWR A CHWEFROR 2026**

**YSGOL PENNAL**

# LLEISIAU PENNAL

https://www.ysgolcorrisapennal.cymru/

## SANTES DWYNWEN



Ar ddiwrnod Santes Dwynwen mi wnaethon ni llwy garu, dim allan o bren, dim allan o sbwriel, ond allan o glai! Roedd o mor anodd gwneud y cwpan â'r patrymau. Roedd pawb wedi gweithio'n galed a dal ati. Roedd angen aros dyddiau i'r clai sychu. Mi roddais i siâp 2 galon a phedol ceffyl ar fy llwy garu i. Ysgrifennwyd gan Curig Blwyddyn 4



Cawsom ni wneud llawer o bethau gwahanol i ddathlu diwrnod Santes Dwynwen.
Cawsom y syniad o wneud llwyau caru efo toes gan Mrs Miriam Jones a'r plant mawr.
Diolch Mrs Jones! Cawsom agor 'Caffi Coch' am y diwrnod hefyd. Roedd raid i ni ddilyn cyfarwyddiadau i wneud brechdanau siâp calon, wedyn eu torri yn eu hanner yn gymesur efo'n cyllyll newydd. Bu raid i ni ysgrifennu rhestr siopa, creu poster ac ymarfer ysgrifennu cyfarwyddiadau efo geiriau -wch.
Fel ac a ddwedwyd gan Emilia ac Ayda.



## CALENNIG

Yn ystod mis Ionawr, bu disgyblion hynaf yr ysgol yn astudio hen draddodiadau'r Flwyddyn Newydd. Fel rhan o'r gwaith, bu'r disgyblion yn gwneud perllan, fel yr oedd plant yn arfer ei chario ers talwm, ac yn dysgu am y traddodiad o ganu'r calennig ar Ddydd Calan. Roedd yn gyfle gwych i ddysgu am dreftadaeth a diwylliant Cymru mewn ffordd ymarferol a diddorol.





# DIWRNOD RHIF SÊR ROC PENNAL



Ar y 6ed o Chwefror, roedd Ysgol Pennal yn llawn sêr rôc. Gan bod hi'n Ddiwrnod Rhif NSPCC bu'r disgyblion yn y ddau ddosbarth yn cymryd rhan mewn amrywiol weithgareddau rhif yn ystod y dydd. Cafodd y disgyblion wisgo fel sêr rôc a roedd pawb wrth eu boddau. Dyma'r disgyblion hynaf yn perfformio eu rap rhif i gweddill yr ysgol.











# CLWB GARDDIO



Ar y 23ain o Ionawr roedd plant Ysgol Pennal wedi creu Cawl, Cawl cennin a thatws. Yn gyntaf roedd pawb wedi tynnu'r cennin o gardd yr Ysgol a'u golchi. Yn ail, torrodd pawb y gwreiddiau a'u golchi tan oedd o yn sgleinio. Yn trydydd roedd pawb wedi torri'r cennin yn fân. Yn pedwerydd, pliciodd pawb y tatws tan oedd o yn felyn i gyd a golchi'r tatws yn dda. Yn pumed torrodd plant Ysgol Pennal y tatws tan oedd o yn fach. Yn chweched roedd Mrs Jones wedi rhoi popeth mewn i'r popty araf a'i goginio am 4 i 5 awr. Pam oedd y cawl yn barod roedd pawb wedi trio'r cawl. Roedd hanner y plant wedi licio fo a hanner arall ddim. Dwi wedi CARU'R Cawl cennin a thatws.
Diolch am y Cawl cennin a thatws pawb.
Ysgrifennwyd gan Jack blwyddyn 6











Yng nghlwb garddio rydym ni wedi tyfu cennin. Rydym ni wedi pigo'r cennin a golchi nhw. Rydym ni wedi gwneud cawl efo'r cennin. Roedd yn flasus. Dwi'n mynd i wneud o adref. Yn y cawl roedd cennin, tatws, nionyn, perlysiau, halen a phupur.
Ysgrifennwyd gan Riley blwyddyn 3

# NOFIO A GYMNASTEG



Ar ddydd Mercher pob wythnos yn Ionawr mae Ysgol Pennal wedi bod yn mynd i'r Ganolfan Hamdden ym Machynlleth i nofio a gymnasteg. Yn gymnasteg rydym ni'n chwarae 'styc yn y dŵr' a gwneud siapiau thema dŵr. Fy hoff ran oedd gymnasteg. Nes i siâp Titanic efo Gruff, Robin a Zephyr. Roeddwn yn gweithio ar y beam glas.
Ysgrifennwyd gan Arrow, Blwyddyn 3





Yn mis Ionawr 2026, mae Ysgol Pennal a Corris wedi bod yn mynd i gymnasteg pob dydd Mercher i Fachynlleth.
Yn y sesiwn cyntaf, dysgom sut i symud fel tonnau bach a thonnau mawr. I gynhesu fyny, chwaraeom 'Stuck in the mud' a rhedeg o gwmpas y neuadd. Roeddwn wedi canolbwyntio ar symud fel tonnau mawr a bach.
Yn yr ail sesiwn cynhesom ein corff ac wedyn ffocysu ar bontydd a chydbwyso efo ffrindiau a phobl wahanol.
Yn y trydydd sesiwn ni wedi gwneud pethau efo cerrynt yr afonydd.
Dwi'n hoffi mynd ar Ddydd Mercher achos deni'n gallu rhedeg rownd neuadd fawr ac mae'n neis i weld plant Corris a symud y corff.
Ysgrifennwyd gan Cali Blwyddyn 6

# DYDD MIWSIG CYMRU




Dydd Gwener ola cyn hanner tymor roedd hi'n Ddydd Miwsig Cymru. Cymerwyd rhan yn y diwrnod trwy gael disgo yn y prynhawn. Diolch i Siarter Iaith Gwynedd am drefnu bod yr ysgol yn cael ymuno gyda'r cyflwynydd Marc Griffiths am sesiwn llawn hwyl a cherddoriaeth Cymraeg ar Cymru FM! Cyn y diwrnod, roedd y disgyblion wedi danfon ceisiadau o'n hoff ganeuon.

# YSGOL PENNAL

## NOSON THERMOMIX

Nos Fercher, 4ydd o Chwefror daeth rhieni a chymuned Pennal at eu gilydd ar gyfer Noson Thermomix.
Cawsom 'demo' gan Gabriel Badescu o Proper Gander Tywyn. Bu Gabriel yn dangos i ni y gwahanol fathau o ryseitiau gellir gwneud gan ddefnyddio'r Thermomix.
Diolch yn fawr i gymuned Ysgol Pennal am gefnogi'r digwyddiad er mwyn gwneud yn siwr ein bod yn cael Thermomix ar gyfer gwersi coginio yn yr ysgol.









## GWERSI FFRANGEG

Mae Blwyddyn 3-6 wedi bod yn cael gwersi Ffrangeg wythnosol ar lein. Diolch i E-Sgol am drefnu'r sesiynau yma gyda Lleucu. Yn ystod yr wythnosau mae'r disgyblion wedi bod yn dysgu lliwiau, rhifau, misoedd y flwyddyn ayb.





## Y TY FFIT



Dŵr ydi ei thema ni. Yn ardal y tŷ ffit, rydym ni'n cael hwyl yn darganfod pa chwistrellydd sy'n chwistrellu bellaf. Rydym ni wedi saethu ffrindiau drwy ddamwain ambell waith! Rydym ni wedi gwneud cynnydd efo sut mae gwneud yn siŵr fod y prawf yn un teg. Rydym ni wedi bod yn sefyll yn yr un lle bob tro, ac yn defnyddio'r un ffordd o fesur bob tro. Dim ond y chwistrellydd wnaethom ni wedi ei newid. Dŵr glaw wnaethom ni ei ddefnyddio yn lle gwastraffu dŵr tap.
Fel ac a ddwedwyd gan Llewyn a Silyn.





## CYNLLUN GWEN

Rydym ni yn treulio dau funud bob dydd yn brwsio ei dannedd cyn mynd adref. Rydym ni'n gorfod gwrando ar gyfarwyddiadau brwsio dannedd yn dda wrth wneud. Mae gennym ni gân wedi ei gwneud gyda'n gilydd. "Rownd mewn cylchoedd, rownd mewn cylchoedd, rownd, a rownd yn araf bach fel hyn, troi brwsh!"
Fel ac a ddwedwyd gan Oskar a Patrick.



## DIWRNOD DIOGELWCH Y WE

Mae'r ysgol wedi cymryd rhan mewn Diwrnod Diogelwch y We ac wedi mynychu sesiwn ar-lein a drefnwyd gan e-sgol, gan ganolbwyntio ar ddiogelwch ar-lein ac ar rôl ac effaith AI. Mae'n bwysig iawn bod disgyblion yn deall pwysigrwydd defnyddio'r we yn ddiogel, gan ddatblygu sgiliau cyfrifol sy'n eu galluogi i lywio'r rhyngrwyd yn hyderus ac yn ddiogel.